

ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, rhif cyfeirnod: 02/11/2021

A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr Cymraeg a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?

Er nad yw'r cynigion yn cael effaith uniongyrchol ar y Gymraeg, byddant yn gefnogol o'r nodau ac amcanion a amlinellwyd yn Cymraeg 2050. Mae holl gyrff y sector cyhoeddus yr effeithir arnynt gan ein cynigion yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg a byddem yn disgwyl iddynt hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yn eu holl ddyletswyddau. Mae'r trydydd sector wedi'i gynnwys yn llawn ar yr agenda rheoli tybaco, a byddai unrhyw gyllid a ddarperir i'r trydydd sector i gefnogi'r cynigion yn amodol ar eu bod yn cefnogi nodau Cymraeg 2050.

Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut yr ewch i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella deilliannau ar gyfer y Gymraeg.

Effaith fach iawn fydd y strategaeth a'r cynlluniau cyflawni'n ei chael ar gynaliadwyedd y Gymraeg, fodd bynnag, o ystyried lefel rhyngweithio'r cyhoedd, ceir potensial i wneud cyfraniad gwerthfawr at Cymraeg 2050. Bydd y strategaeth a'r cynlluniau cyflawni hefyd yn cefnogi camau gweithredu'r fframwaith '[Mwy na geiriau](#)' wrth ddatblygu cynigion, gan gynnwys yr egwyddor o gynnig gwasanaethau Cymraeg i bobl heb iddynt orfod gofyn am hynny. Caiff y Gymraeg ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg ym mhob agwedd ar ein dulliau rheoli tybaco. Bydd y ddogfen ymgynghori'n cael ei chyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y strategaeth derfynol a'r holl gynlluniau cyflawni yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg hefyd.

Mae'r cynnig yn annhebygol o gael unrhyw effaith benodol ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg, er y gallai cael gwybodaeth a chymorth ar gael yn Gymraeg helpu dysgwyr Cymraeg. Fodd bynnag, os a phan yr ymgysylltw'n ag addysg cyfrwng Cymraeg, a phlant a phobl ifanc yn benodol, byddwn yn sicrhau ein bod yn dilyn yr egwyddorion fel y'u hamlinellir yn Cymraeg 2050 a bod yr holl wasanaethau a gwybodaeth yn cael eu cynnig yn Gymraeg.

Mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni cyntaf yn cynnwys camau i wella gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu yng Nghymru, trwy ddatblygu gwasanaethau'n barhaus a thrwy arloesi. Ni fydd y newidiadau hyn yn effeithio'n negyddol ar y gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ond gallent effeithio'n gadarnhaol ar y Gymraeg gan y bydd egwyddorion Cymraeg 2050 a '[Mwy na geiriau](#)' yn cael eu hystyried a'u hymgorffori.

Mae gwasanaethau presennol rhoi'r gorau i ysmegu Helpa Fi i Stopio yn defnyddio hysbysebion dwyieithog, gan gynnwys hysbysebu ar bosteri a'r teledu. Mae gwefan Helpa Fi i Stopio ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac mae'n cynnwys gwybodaeth am wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu ledled Cymru. Bydd unrhyw welliannau i wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu sy'n digwydd yn dilyn y strategaeth a'r cynllun cyflawni yn parhau i hyrwyddo gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu yn Gymraeg a Saesneg, a bydd mynediad at wasanaethau a chymorth yn Gymraeg yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwelliant parhaus hwn, er mwyn ein helpu i gryfhau a datblygu'r Gymraeg. Fel egwyddor, byddwn yn amcanu at sicrhau bod pobl yn cael cynnig cymorth yn Gymraeg wrth ddefnyddio Helpa Fi i Stopio. Byddwn yn gweithio i ddeall niferoedd y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio gwasanaethau Helpa Fi i Stopio drwy'r llinell gymorth Gymraeg.

Bydd y Bwrdd Strategol Rheoli Tybaco yn goruchwyllo gweithredu cynlluniau cyflawni di-fwg ar gyfer oes y strategaeth, a bydd yn monitro effaith y camau gweithredu yn y cynlluniau cyflawni a'n cynnydd i sicrhau Cymru ddi-fwg. Byddwn yn adolygu aelodaeth y Bwrdd ac unrhyw grŵp gweithredu i gynnwys, lle bo modd, cynrychiolaeth o siaradwyr ac arbenigedd Cymraeg. Bydd y Gymraeg yn eitem agenda yn y cyfarfodydd hyn er mwyn sicrhau y caiff unrhyw faterion neu bryderon ynglŷn â darpariaeth Gymraeg eu nodi'n gynnar.